# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(81)

### 1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 5 a 7 – 9. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.

**Pwynt o Drefn**

Dechreuodd yr eitem am 15.00

Cododd Ken Skates bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 17.22 ynghylch penodi cadeirydd dros dro mewn pwyllgor a pha mor hir y dylai'r pwyllgor aros cyn gwneud hynny yn absenoldeb y Cadeirydd.

Dywedodd y Llywydd nad yw hyn yn bwynt o drefn iddi hi gan fod y pwyllgorau yn gyfrifol am eu gweithdrefnau eu hunain, gan gynnwys penodi cadeirydd dros dro yn absenoldeb y Cadeirydd o dan Reol Sefydlog 17.22. Nododd hefyd y dylai'r Aelodau roi gwybod i'r clerc, fel mater o gwrteisi, os na allant fod yn bresennol mewn pwyllgor.

**Cynnig I atal y Rheolau Sefydlog**

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**NNDM5045 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion o dan eitemau 3, 4 a 5 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 3. Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

Dechreuodd yr eitem am 15.02

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5038 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Mai 2012.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 13 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

### 4. Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012

Dechreuodd yr eitem am 15.17

**NDM4988 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a Bwrdd y Gwarcheidwad Cyhoeddus) 2012 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 5. Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 15.20

**NDM5037 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco (Arddangos Prisiau) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6. Dadl ar adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Ragolygon ar Gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.26

**NDM5041 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ragolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mai 2012.

Er gwybodaeth, gosodwyd ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y Broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop

Dechreuodd yr eitem am 16.20

**NDM5042 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.06

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5043**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**William Graham (Dwyrain De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hyder yn y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 29 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.04

## 9. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.06

**NDM5044 Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Dyslecsia ac Ysgolion: Cydweithio i Wneud Gwahaniaeth.

Mae angen cefnogaeth ar holl ddisgyblion Cymru i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, ac mae'n hanfodol bod pobl ifanc sydd â dyslecsia yn gallu cael yr asesiadau, yr ymyriadau a'r cymorth ychwanegol priodol y bydd eu hangen arnynt yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio eu sgiliau, eu dulliau a'u cymwyseddau gyda phobl ifanc sydd â dyslecsia yn hollbwysig a gall wneud byd o wahaniaeth i gyfleoedd bywyd plentyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:34

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 25 Medi 2012**